

ECAD6006C

Blwyddyn 3

Darlith1 10.10.19

Bethan Griffiths

Bethan.Griffiths@uwtsd.ac.uk

Nod y sesiwn heddiw ...

- ▶ Camau Cynnydd -

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- ▶ Tystysgrif Sgiliau Iaith

- Meini Prawf y Cyflwyniad Llafar a'r Arholiad
Ysgrifenedig

- ▶ Ymarfer Cwestiwn 1 - Yr Arholiad Ysgrifenedig

- ▶ Adolygu Termau Gramadegol (Rhannau Ymadrodd)

- ▶ Adolygu Berfau

TSI - Yr Aseu



**Y Cyflwyniad
Llafar
50%
(Dyddiad i'w
gadarnhau)**



**Aseiad
Ysgrifenedig
50%

6ed o Fai 2020**

Cyflwyniad Llafar - Tystysgrif Sgiliau Iaith

1. Y CYFLWYNIAD LLAFAR

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gwblhau eu cyflwyniadau llafar rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth. Rhaid i bob ymgeisydd wneud cyflwyniad llafar a fydd yn para 7-8 munud yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar ei faes/ei maes astudiaeth. Dylai'r cyflwyniad fod yn addas i gynulleidfa o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes hwnnw; hynny yw, dylid sicrhau bod y cyflwyniad yn ddealladwy i rywun sy'n anghyfarwydd â'r pwnc dan sylw.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, bydd 7-8 munud i'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau gan yr arholwr. Bydd y cwestiynau'n ymwneud ag unrhyw bwyntiau diddorol a gododd yn ystod y cyflwyniad.



Enghreifftiau o gyflwyniadau

<https://llyfrgell.porth.ac.uk/Default.aspx?catid=391>



Meini Prawf - Cyflwyniad Llafar

	Mwyafswm
Dull cyflwyno	20
Ystod cystrawennau a geirfa	20
Cynnwys a threfn y cyflwyniad	20
Ymateb i gwestiynau	20
Cywirdeb	10
Deunydd gweledol	10
Cyfanswm:	100

Arholiad Ysgrifenedig



**Asesiad
Ysgrifenedig
50%**

6^{ed} o Fai 2020

TASG 1:

Cywiro (20% o farciau'r papur)

TASG 2:

Trawsieithu (40% o farciau'r papur).

TASG 3:

**Ysgrifennu Rhydd
(40% o farciau'r papur)**

TASG 1: CYWIRO (Mae'r dasg hon yn werth 20% o'r marciau) Mae 2 wall ym mhob brawddeg yn y darn isod, a chyfanswm o 22 o wallau. Cywirwch nhw, gyda chymorth Cysill. Nid oes angen i chi newid cywair neu arddull y darn o gwbl, dim ond cywiro'r gwallau iaith sydd ynddo. Rhowch eich cywiriadau mewn **print trwm**.

DARN I'W GYWIRO

Mae llai a lai o fyfyrwyr yn cymryd blwyddyn i ffwrdd o'i astudiaethau rhwng yr ysgol a'r coleg. Maent yn fwy tebygol i weithio, er mwyn ennill prês. Mae hynny'n drueni, gan fod y profiad o fynd dramor neu weithio am elusen ym mhwysig iawn. Dylau pobl ifanc fanteisio ar bob cyfle i ddod i adnabod y byd y tu allan eu milltir sgwâr.

Mae cyfleoedd am gael, os i chi'n fodlon chwilio amdanyn nhw. Er engrhaifft, mae VSO yn dal yn cynnig profiadau i bobl rhwng 18 a 25 oed. Ewch yw gwefan nhw i weld beth sy'n ei gael ei gynnig. Does dim angen cymhwysterau, ac mae'n bosibl cael hyffordiant, cyn mynd. Telir costau teithio, a threfnu'r llety i'r gwirfoddolwyr gan VSO, mewn gwledydd tlotaf y byd.

Ar y llaw arall, rhaid i fyfyrwyr meddwl am eu cynnal eu hunan. Felly gweithio yn ystod y gwyliau, neu am flwyddyn gyfan, yw'r unig dewis ambell waeth.

Atebion

Mae llai a **llai** o fyfyrwyr yn cymryd blwyddyn i ffwrdd **o'u hastudiaethau** rhwng yr ysgol a'r coleg. Maent yn fwy tebygol **o** weithio, er mwyn ennill **pres**. Mae hynny'n drueni, gan fod y profiad o fynd dramor neu weithio i elusen **yn bwysig** iawn. **Dylai** pobl ifanc fanteisio ar bob cyfle i ddod i adnabod y byd y tu allan **i'w** milltir sgwâr.

Mae cyfleoedd **ar** gael, os **ydych** chi'n fodlon chwilio amdanyn nhw. Er **enghraifft**, mae VSO yn dal i **gynnig** profiadau i bobl rhwng 18 a 25 oed. Ewch **i'w** gwefan nhw i weld beth sy'n **cael** ei gynnig. Does dim angen **cymwysterau**, ac mae'n bosibl cael **hyfforddiant**, cyn mynd. Telir costau teithio, a **threfnir** llety i'r gwirfoddolwyr gan VSO, **yng ngwledydd** tlotaf y byd.

Ar y llaw arall, rhaid i fyfyrwyr **feddwl** am eu cynnal eu **hunain**. Felly gweithio yn ystod y gwyliau, neu am flwyddyn gyfan, yw'r unig **ddewis** ambell **waith**.

Cysgliad



Bydd hawl gyda chi i ddefnyddio'r feddalwedd Cysgliad yn yr arholiad ysgrifenedig.

Gloywi Iaith

- Adnoddau defnyddiol

- ▶ <http://www.canolfanpeniarth.org/CBAC>
- ▶ www.porth.ac.uk
- ▶ www.colegcymraeg.ac.uk
- ▶ www.geiriadur.net
- ▶ <http://www.geiriaduracademi.org>

A green starburst graphic with a blue outline, containing the text 'Rhannau Ymadrodd'.


**Rhannau
Ymadrodd**

Abstract blue geometric shapes in the background.

Rhan Ymadrodd	Ystyr	Enghreifftiau
Enw/au (noun/s)	Gair a roddwn ar rywbeth er mwyn ei adnabod a gwybod beth ydyw.	athro disgybl
Rhagenw/au (pronoun/s)	Gair sy'n cymryd lle'r enw mewn brawddeg.	hi nhw ni
Cysylltair/Cysyllteiriau (conjunction/s)	Gair sy'n cysylltu geiriau, cymalau neu frawddegau.	neu ond ac
Ansoddair/Ansoddeiriau (adjective/s)	Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw.	hapus gwahanol
Arddodiad/Arddodiaid (preposition/s)	Gair sy'n dangos perthynas rhwng un person/peth a pherson/peth arall.	ar wrth yn
Y Fannod (definite article)	Gair sy'n gwneud enw'n benodol, <i>the</i> yn Saesneg.	y yr 'r
Berfenw/au (verb-noun/s)	Ffurf wreiddiol neu ystyr y ferf – enw'r gweithgaredd yn unig.	cerdded ysgrifennu
Berf/au (verb/s)	Gair sy'n dweud beth sy'n cael ei wneud, pwy sy'n gwneud a phryd.	gwelais eisteddodd
Adferf/au (adverb/s)	Gair neu ymadrodd sy'n disgrifio neu'n rhoi mwy o wybodaeth i ni am y ferf.	ddoe yn gyflym
Goddrych/au (subject/s)	Gair am y person neu'r peth sy'n gwneud y weithred (h.y. y ferf).	Prynodd yr athrawes lyfrau.
Gwrthrych/au (object/s)	Gair am y person neu'r peth sy'n dioddef y weithred (h.y. y ferf)	Prynodd yr athrawes lyfrau .



Adolygu
Berfau



Berf



Berfenw




Beth ydy'r
gwahaniaeth?

BERFAU: Mae berfau yn rhoi 3 darn o wybodaeth i ni.



Beth?



Pryd?



Pwy?

1. 2 ffurf - cwmpasog a chryno
2. chwe pherson i bob berf (**fi, ti, ef/hi, ni, chi, a nhw**)
3. gwahanol amseroedd - presennol, dyfodol, gorffennol, amherffaith ...

Ffurfiau cwmpasog

FFURF AR Y FERF 'BOD' + GODDRYCH (PWY) + YN/WEDI + BERFENW

Mae Huw wedi ennill.

Roeddet ti wedi talu.

Byddwn ni 'n darllen.

Ffurfiau cryno

Er mwyn ffurfio'r ferf gryno, mae'n rhaid i ni ychwanegu terfyniad at **fonyn** y ferf.

Bydd y terfyniad yn dangos pwy sy'n gwneud a phryd (amser a pherson y ferf) ...

CANAIS

CAN(U)+AIS

PENDERFYNODD


PENDERFYN(U) +ODD

DARLLENON

DARLLEN + ON



Bonyn y ferf



addo

addaw-

dweud

dyw-

cyfarfod

cyfarfydd-

yfed

yf-

cyrhaedd

cyrhaedd-

trefnu

trefn-

dangos

dangos-

newid

newidi-

ennill

enill-

cau


cae-

paratoi

parato-

cymryd

cymer-



Ffurfiau cryno

I ffurfio berfau cryno felly, rydym yn ychwanegu terfyniad a fonyn y ferf :

Mae Huw wedi ennill → **Enillodd Huw**

Bydd y terfyniad yn dibynnu ar

- 1) bwy sy'n gwneud y ferf (y goddrych)
- 2) pryd mae'n digwydd

Ffurfiau cryno

- presennol/dyfodol (rheolaidd)

Anffurfiol	Ffurfiol
-a i	-af i
-i di	-i di
-iff e/o	-a ef
-iff hi	-a hi
-wn ni	-wn ni
-wch chi	-wch chi
-an nhw	-ant hwy

Defnyddiwch y cardiau berfenwau er mwyn ymarfer rhedeg y berfau gan ddefnyddio'r terfyniadau uchod.

Cyfieithwch ...

- | | |
|--------------------|-------------------------------------|
| ▶ I'll wait | • Arhosa i / Arhosaf i |
| ▶ I'll keep | • Cadwa i / Cadwaf i |
| ▶ They'll walk | • Cerddan nhw / Cerddant hwy |
| ▶ She'll show | • Dangosiff hi / Dangosa hi |
| ▶ You'll read (ti) | • Darlleni di |
| ▶ You'll arrive | • Cyrhaeddwch chi |

Ffurio'r gofynnol ...

I ffurfio cwestiwn, rhaid i ni ychwnaegu 'A' o flaen y ferf. Mae'r 'A' yn achosi treigladau meddal.

'A' ddarlleni di?

Gallwn ni hepgor yr A, ond bydd y treigladau yn aros -

Ddarlleni di?

Trowch yr enghreifftiau ar y dudalen flaenorol yn gwestiynau.

Defnyddiwch y cardiau berfenwau er mwyn ymarfer ffurfio'r gofynnol.

Ffurio'r negyddol ...

I ffurfio'r negyddol rhaid i ni ychwanegu **'Ni'** o flaen y ferf.

Mae **'Ni'** yn achosi...

- * treigladau meddal mewn berfau sy'n dechrau â **d, g, b, ll, m, rh**
- * treigladau llaes mewn berfau sy'n dechrau â **t, c, p**.

Ni lwyddan nhw

Ni welwn ni


Ni chlywaf i

Eto, gallwn ni hepgor y **'Ni'** ond bydd y treigladau yn parhau, ac mae angen ychwanegu **'ddim'** ...

Lwyddan nhw **ddim** **W**elwn ni **ddim** **C**hlywa i **ddim**

Defnyddiwch y cardiau berfenwau er mwyn ymarfer ffurfio'r negyddol.

Bydd gwrthrych berfau cryno cadarnhaol
yn treiglo'n feddal.



Er mwyn dod o hyd
i'r gwrthrych,
gofynnwch BETH?

- * Darllenaf i **l**yfr.
- * Prynwn ni **b**edwar tocyn.
- * Cyrhaeddwn ni **g**opa'r Wyddfa cyn 10 o'r gloch.

OND

- * Ddarllenaf i **ddim** llyfr
- * Phrynwn ni **ddim** pedwar tocyn



Cofiwch!

Treiglo'r gwrthrych



Cywirwch y gwallau, lle bo angen ...

1. Ysgrifennaf i llythyr atoch chi i gadarnhau'r trefniadau.
2. Tafliff e pêl fawr goch.
3. Trefnwn ni cyngerdd i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol.
4. Gyrru di car mawr crand.
5. Prynan nhw popeth o siopau crand.
6. Derbyniwn ni graddau gwych yn yr arholiadau eleni.

Atebion



Cywirwch y gwallau, lle bo angen ...

1. Ysgrifennaf i **l**ythyr atoch chi i gadarnhau'r trefniadau.
2. Tafliff e **b**êl fawr goch.
3. Trefnwn ni **g**yngerdd i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol.
4. Gyrru di **g**ar mawr crand.
5. Prynan nhw **b**opeth o siopau crand.
6. Derbyniwn ni **r**addau gwych yn yr arholiadau eleni.

Adfyfyrio ar gynnwys y ddarlith

- ▶ Canfod eich cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.
- ▶ Ystyried ffurfiau berfau y byddwch yn eu defnyddio ar lawr dosbarth.

